# GRANT GWRTHSEFYLL LLIFOGYDD I FUSNESAU

# NODYN CYFARWYDDYD

🖂 **adfywio@rctcbc.gov.uk**

## GRANT GWRTHSEFYLL LLIFOGYDD I FUSNESAU
## NODYN CYFARWYDDYD

### Pwrpas y Gronfa

Ym mis Tachwedd 2024, dygodd Storm Bert dywydd garw gyda gwerth dros fis o law yn disgyn mewn cyfnod byr iawn. O ganlyniad, cafodd nifer sylweddol o fusnesau eu heffeithio'n ddifrifol gan lifogydd.

Bydd y Grant Gwrthsefyll Llifogydd i Fusnesau yn darparu cymorth i fusnesau weithredu mesurau i'w heiddo a fydd yn gwella gwytnwch busnes wrth ddelio ag unrhyw dywydd garw posibl yn y dyfodol.

### Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Caiff busnesau maint bach a chanolig a all ddangos bod llifogydd wedi effeithio arnyn nhw yn ystod Storm Bert eu blaenoriaethu.

Rhaid i fusnesau fod wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Trethi Annomestig

### Beth mae'r Rhaglen yn gallu'i ariannu?

Mae enghreifftiau o'r math o waith y gallai'r grant ei gefnogi yn cynnwys;

- Drysau Mewnol
- Llifddorau i ddrysau
- Gorchuddion llawr a sgertin gwrth-ddwr
- Byrddau gwrthsefyll lleithder ar gyfer waliau mewnol
- Codi pwyntiau pŵer yn uwch
- Falfiau na sy'n dychwelyd
- Storfa fewnol ar gyfer stoc a/neu offer

Os nad ydych chi'n berchen ar yr eiddo, bydd angen i chi gyflwyno caniatâd ysgrifenedig gan y Landlord i gyflawni'r gwaith.

### Faint o arian rydw i'n cael gwneud cais amdano?

Mae modd i'r Gronfa gyfrannu 100% o gostau prosiect cymwys, hyd at uchafswm y grant o £10,000. Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, mae modd i chi wneud cais am gost TAW does dim modd ei adennill yn unig.

### Sut ydw i'n Cyflwyno Cais?

Bydd angen i chi gwblhau ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb a'i dychwelyd i adfywio@rctcb.gov.uk

Os yw eich cais yn gymwys, byddwn yn cysylltu a chi ac yn eich gwahodd i gyflwyno ymgais lawn ynghyd a'r wybodaeth ychwangel sydd wedi'i nodi ar y ffurflen.

## Sut bydd fy nghais yn cael ei brosesu?

Bydd eich cais yn destun gwiriad dilysu cychwynnol er mwyn sicrhau eich bod chi wedi cyflwyno'r holl wybodaeth gywir.

Os nad oes modd dilysu'ch cais, bydd yn cael ei ddychwelyd atoch chi gydag eglurhad ynghylch pam na ellir ei ddyfarnu i chi ar hyn o bryd. Mae croeso i chi ailgyflwyno'ch cais pan fyddwch chi'n gallu darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol.

Os yw'ch cais yn cael ei ddilysu, bydd yn cael ei asesu, a byddwn ni'n rhoi gwybod i chi am ganlyniad y cais.

Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwch chi'n derbyn llythyr gyda manylion y grant a'i delerau ac amodau. Os ydych chi'n dymuno derbyn y grant bydd angen i chi lofnodi'r telerau ac amodau a'u dychwelyd aton ni.

Does dim sicrwydd y bydd pob cais yn llwyddiannus.

## Sut bydd y grant yn cael ei dalu?

Fel rheol, bydd y taliad yn cael ei wneud wedi i chi gwblhau'r prosiect ac ar ôl i chi gyflwyno' canlynol;

- Anfonebau
- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus
- Cadarnhad o unrhyw gydsyniadau statudol e.e. caniatâd cynllunio / rheoliadau adeiladu
  (os yw'n berthnasol)
- Tystiolaeth ffotograffig o'r offer gafodd ei brynu a'r gwaith gafodd ei wneud

Fel arfer, byddwn ni'n talu'r grant yn seiliedig ar y gost leiaf – naill ai'r dyfynbris gwreiddiol neu bris yr anfoneb derfynol.

Fydd taliadau grant ddim;

- yn cael eu gwneud ymlaen llaw
- yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyflenwyr/contractwyr
- yn cael eu gwneud am unrhyw gostau rydych chi wedi talu amdanyn nhw cyn dyddiad y cynnig grant (hyd yn oed ar ffurf adneuon ad-daladwy)

## Rheoli Cymhorthdal – Cymorth Ariannol Lleiaf

O dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022, cymhorthdal yw pan fo awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth i fusnes sy'n rhoi mantais economaidd iddyn nhw, sy'n golygu nad oedd cymorth cyfatebol ar delerau masnachol yn gallu cael ei sicrhau.

Cynigir cymorth grant a ddarperir gan y Grant Ehangu Busnes o dan Gymorth Ariannol Lleiaf. Mae gan Gymorth Ariannol Lleiaf drothwy ariannol sy'n golygu does dim modd i unrhyw dderbynnydd dderbyn mwy na £315,000 dros y cyfnod cymwys o dan adran 36(1) o Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Dylai'r canlynol gael eu hystyried wrth gyfrifo nifer y Cymorth Ariannol Lleiaf y mae eich busnes wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol:

- Cymorth Ariannol Lleiaf arall
- Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyhoeddus
- Cymorth a roddir o dan reoliadau cymorth gwladwriaethol yr UE de minimis cyn diwedd y cyfnod gweithredu, sef 31 Rhagfyr 2020 a
- Cymorthdaliadau a roddir fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE cyn i'r adran yma o'r Ddeddf ddod i rym.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd gofyn i chi gadarnhau yn ysgrifenedig na fydd y cynnig grant yn fwy na throthwy Cymorth Ariannol Lleiaf eich sefydliad o £315,000.
Os ydych chi'n ansicr p'un a yw unrhyw gymorth blaenorol rydych chi wedi'i dderbyn yn cyfrif fel Cymorth Ariannol Lleiaf, cysylltwch â'r sefydliad a'i darparodd i chi.